**Adolygiad o Gynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr Cymru 2017 – 2020**

**Cefndir**

Cafodd y Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr (CGSM) ei ddatblygu gan Weithgor Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol. Sefydlodd y Grŵp Gorchwyl 'Bartneriaeth Moroedd Glân Cymru' â'r nod o annog pob sector yng Nghymru i weithredu ar broblemau sbwriel môr. Cafodd enw a hunaniaeth y bartneriaeth eu dewis i gydfyd â Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig byd-eang.

Cafodd Partneriaeth Moroedd Glân Cymru ei llunio i fod yn blatfform ar gyfer ymgysylltu, addysgu a chyd-hyrwyddo ymgyrchoedd a mentrau i fynd i'r afael â sbwriel môr ac i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu yn yr CGSM. Gwnaeth Blwyddyn y Môr Croeso Cymru, a Ras Cefnfor Volvo a gafodd ei gynnal yn 2018, roi canolbwyntiau pwysig ar gyfer y cynllun gweithredu.

Mae Partneriaid Moroedd Glân Cymru yn cynnwys llywodraeth genedlaethol a lleol, Croeso Cymru, awdurdodau harbwr a phorthladd, busnesau preifat, cymdeithasau pysgota, cyrff gweithgareddau hamdden morol a chynrychiolwyr y trydydd sector, gyda'r nod o adeiladu dull cydweithredol ar gyfer cyflawni'r CGSM a gweithredu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol sbwriel môr.

Cafodd yr CGSM ei lunio i sicrhau bod yr egwyddorion atal, cydweithio ac atebion tymor hir wrth ei wraidd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Cytunwyd ar yr CGSM ym mis Tachwedd 2017, ac roedd yn canolbwyntio ar bum maes allweddol

- Adeiladu sail dystiolaeth gadarn
- Canolbwyntio ar gamau ataliol
- Cynnwys cymunedau a defnyddwyr y môr
- Integreiddio manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol
- Monitro ac adrodd ar gynnydd

Roedd cyfnod tair blynedd yr CGSM yn cyd-fynd ag ymwybyddiaeth uwch a rhagor o weithredu gan y cyhoedd, wedi eu hysgogi gan sylw yn y cyfryngau ar effaith sbwriel môr. Cafodd hyn hwb yng Nghymru gan Flwyddyn y Môr Croeso Cymru a Ras Cefnfor Volvo a gynhaliwyd yma gyda'i phwyslais ar droi'r llanw ar blastig.

## Adolygiad

### Adeiladu sail dystiolaeth gref

Cafodd ymchwil ei chomisiynu drwy Lywodraeth Cymru a'i chynnal gan gonsortiwm a oedd yn cynnwys Cadwch Gymru'n Daclus, y Gymdeithas Cadwraeth Forol ac Eunomia. Mae'r ymchwil hon wedi cael ei chyhoeddi ac mae'n rhoi sail dystiolaeth helaeth ar gyfer cam nesaf y cynllun gweithredu. Defnyddiwyd yr ymchwil hon i lunio tri adroddiad, pob un yn ymwneud ag agweddau ar Gynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr Cymru – '*Adeiladu sail dystiolaeth gref i lywio gweithredu*'. Mae'r ystyriaethau a'r canfyddiadau yn yr adroddiadau hyn wedi deillio o gyfweliadau, grwpiau ffocws a chyfres o weithdai rhanbarthol. Mae'r dystiolaeth hon bellach yn gallu llywio Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr Cymru yn y dyfodol, yn benodol:

- Mae dryswch a negeseuon cymysg o hyd ynghylch ymatebion priodol mewn perthynas â deunyddiau compostadwy y gellir eu defnyddio yn lle plastig untro.
- er y datblygiadau arloesol yn ddiweddar, yn ôl pob golwg mae'n annhebygol y byddant yn bodloni'r angen am ddeunyddiau y gellir eu defnyddio yn lle plastig untro yn y tymor byr/canolig. Felly mae'n rhaid i atal fod wrth wraidd y cynllun. Bydd mabwysiadu'r Gyfarwyddeb Plastigion Untro a Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol y DU yn y dyfodol yn allweddol i fynd i'r afael ag eitemau ystyfnig a phroblematig yn y tarddiad.
- Mae angen cynyddu effeithiolrwydd ymdrechion i gyfathrebu drwy ddull mwy cydgysylltiedig ar draws awdurdodau lleol a chyrff anllywodraethol, gan ganolbwyntio'n benodol ar 'lwybrau gofodol' allweddol'
- Mae gan y sector twristiaeth ran allweddol i'w chwarae mewn perthynas â chyfathrebu, ac mae ganddo adnoddau ar gyfer ymgysylltu nad ydynt cael eu defnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd.
- Mae nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd casglu sbwriel yn uwch nag erioed, ond mae niferoedd uwch o wirfoddolwyr yn arwain at oblygiadau o ran adnoddau, a gallai dull mwy cydgysylltiedig gan Awdurdodau Lleol a'r trydydd sector fod yn fuddiol.

### Canolbwyntio ar weithredu ataliol

Bu pwyslais clir ar yr angen am ragor o weithredu ataliol ar lefel y Llywodraeth, gydag adroddiadau wedi eu comisiynu ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig i estyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Yn 2018 fe'i gwnaed yn drosedd gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu, gwerthu neu gynnig i gyflenwi unrhyw gynhyrchion cosmetig neu ofal personol y gellir eu golchi i ffwrdd sy'n cynnwys microbelenni yng Nghymru.

Yn ôl yr ymchwil mae dros hanner y cynghorau yng Nghymru wedi pasio rhyw fath o gynnig ar leihau plastigion, gyda nifer o'r rhain yn adolygu'r trefniadau caffael ar draws eu hystadau mewn modd gweithredol. Mae llawer o gynghorau eraill wedi dweud mai dyma'r nod maent yn gobeithio gweithio tuag ato yn y dyfodol agos.

Gwnaeth cymorth gan Lywodraeth Cymru a'r cwmnïau dŵr alluogi cyflwyno Ail-lenwi Cymru yn 2018, gyda'r nod o leihau nifer y poteli diodydd plastig sy'n cael eu defnyddio. Sefydlodd y cynllun 55 cynllun ail-lenwi a 1,653 o orsafoedd ail-lenwi erbyn mis Medi 2019, gan sicrhau cyfleusterau ail-lenwi yn 80% o'r cymunedau ar Lwybr Arfordir Cymru.

Mae Partneriaid Moroedd Glân Cymru wedi bod yn weithredol wrth annog gweithredu i atal llygredd yn y tarddiad, Er enghraifft, gwaeth Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched Cymru hyrwyddo End Plastic Soup,  ymgyrch a oedd yn tynnu sylw at yr effaith mae ffibrau microplastig yn ei chael ar fywyd y môr a'r effeithiau posibl pe bai'r ffibrau'n cyrraedd y gadwyn fwyd.  Bu'r prif ffocws drwy raglen addysg helaeth a gyflwynwyd drwy Bartneriaeth Moroedd Glân Cymru.

Mae gweithgareddau Eco-ysgolion Cadwch Gymru'n Daclus , gan gynnwys y prosiect 'Litter-Less' a gweithdai penodol i Sbwriel Môr ledled Cymru, wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys 22 Gweithdai ar Sbwriel Môr mewn ysgolion uwchradd (2018), ac wedi hyfforddi 590 o athrawon mewn addysg amgylcheddol (2016–2018)

Mae gan Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth 126 o ysgolion yn gweithio ar y Rhaglen Ysgolion Di-blastig, ac maent wedi cynnal 26 sesiwn Ysgol y Môr ar gyfer 750 o blant.

Yn 2018–19 cyflwynodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol eu rhaglenni addysg i dros 3,000 o fyfyrwyr.

Yn 2019 gweithiodd Parc Cenedlaethol Sir Benfro gyda thua 300 o blant ar weithgareddau dysgu ar blastigion y môr. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn weithdai 'Plastigion yn y Môr' yn Oriel y Parc. Gwnaeth y Parc hefyd gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu â grwpiau cymunedol â'r nod o godi ymwybyddiaeth o blastigion yn y môr, gan gynnwys sgyrsiau a gweithdai celf

**Cynnwys cymunedau a defnyddwyr y môr**

Yn ôl yr ymchwil roedd nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd casglu sbwriel a glanhau traethau yn uwch nag erioed. Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol ac mae llawer o Awdurdodau Lleol yn dibynnu ar eu gweithgareddau a'u cymorth yn drwm, os nad yn llwyr, yn enwedig yn ystod y tymor tawel.

Mae nifer a maint yr ymgyrchoedd glanhau traethau gan wirfoddolwyr wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2018 cydweithiodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Chadwch Gymru'n Daclus yn ymgyrch Glanhau Traethau Cymru Gyfan 2018, a oedd yn cynnwys dros 5,400 o wirfoddolwyr mewn 238 o ddigwyddiadau.

Gwnaeth ymgyrch Glanhau Traethau Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth yn hydref 2019 gwblhau 126 sesiwn glanhau traethau. Helpodd 4,496 o wirfoddolwyr i waredu 5,259.44kg o lygredd plastig.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio i lanhau dros 30 traeth ledled Cymru, gyda sesiynau glanhau misol wedi eu trefnu yng Ngŵyr, Pen Llŷn a Sir Benfro. Hefyd mae gan yr Ymddiriedaeth rwydwaith o tua 15 o geidwaid yr arfordir (Coastodians) ledled Cymru, sef gwirfoddolwyr sydd wedi mabwysiadu traeth.

Mae Parc Cenedlaethol Sir Benfro hefyd wedi cefnogi dros 401 o ddiwrnodau cyfwerth â gwaith un person i lanhau sbwriel o'r draethlin. Mae hyn yn cynnwys 332 o wirfoddolwyr a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gweithredu cymdeithasol drwy eu hysgol neu eu coleg. Cynhaliwyd deg digwyddiad gwirfoddolwyr fel rhan o 'Brosiect Mawr Glanhau'r Afonydd' i glirio sbwriel o lannau Aberdaugleddau;

Mae rhai o'r mentrau mwyaf llwyddiannus wedi cael eu harwain gan y gymuned, gyda'r nifer cynyddol o sesiynau Glanhau Traeth mewn Dwy Funud a'r rhwydwaith o gymunedau di-blastig yn cael eu hysgogi gan syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth. Mae gan Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth 28 cynrychiolydd gwirfoddol yn gweithio ar hyd yr arfordir, gyda 61 cymuned yn gweithio tuag at Statws Di-blastig, a 15 cymuned wedi cyflawni Statws Di-blastig. Ynys Môn oedd y sir gyntaf yn y DU i dderbyn Statws Di-Blastig gan Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth.

Roedd uchafbwyntiau nodedig gweithredu a arweinir gan gymunedau'n cynnwys

- Cyngor Cymuned Amroth yn comisiynu Bertie the Sea Bass, cerflun trawiadol o ddraenogyn môr wedi'i lenwi â sbwriel plastig. Mae Bertie wedi bod ar daith o amgylch Sir Benfro gyda rhaglenni addysg cysylltiedig. Mae'r fenter hefyd wedi derbyn Gwobr Un Llais Cymru.
- Prosiect cymunedol Cricieth a gafodd ei gyflawni fel rhan o Brosiect Ecosystemau Pen Llŷn, a oedd yn edrych ar leihau maint y sbwriel sy'n cael ei greu gan y dref a glanhau'r traeth a'r ardal o'i amgylch mewn modd gweithredol. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar fonitro sesiynau clirio sbwriel môr o draethau a defnyddio'r wybodaeth i leihau sbwriel yn y tarddiad.
- Dechreuodd Ceidwaid y Môr (Ocean Guardians) fel grŵp cymunedol o bobl a sefydliadau lleol o Abergwaun a Wdig a welodd fod y lefelau o lygredd plastig lleol yn codi. Mae wedi datblygu rhaglen sy'n cynnwys busnesau, y diwydiant pysgota lleol a gwirfoddolwyr cymunedol gyda chynllun cydnabyddiaeth cysylltiedig gan Geidwaid y Môr.

Mae sefydliadau defnyddwyr y môr fel Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru a'r Royal Yachting Association wedi chwarae rôl bwysig wrth weithio i addysgu ac ymgysylltu ag aelodau. Nid oes cynllun 'Pysgota am Sbwriel' ffurfiol yng Nghymru, a dylid rhoi sylw i hyn yng ngham nesaf y cynllun gweithredu.

**Integreiddio manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol**

Roedd y Cynllun Gweithredu yn ceisio sicrhau bod ymyriadau'n arwain at ganlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Rhoddodd Blwyddyn y Môr Croeso Cymru ganolbwynt, gyda chyfleodd i gynnwys busnesau twristiaeth yn y gwaith o fynd i'r afael â sbwriel môr. Fel rhan o hyrwyddo ei Blwyddyn y Môr, helpodd Croeso Cymru Theatr Byd Bychan i wneud Cragen, sioe anghenfil môr a oedd y teithio o amgylch cymunedau arfordirol yn tynnu sylw at effeithiau sbwriel y môr. Ffocws y digwyddiadau hyn oedd clamp o byped anghenfil môr 20m o hyd wedi'i wneud ar gyfer y prosiect hwn gan Theatr Byd Bychan o wastraff plastig o'r môr. Roedd yn teithio i leoliadau ar hyd Ffordd Cymru, gan gysylltu Ffordd Gogledd Cymru â Llwybr yr Arfordir. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Gorffennaf 2019 denodd Cragen dros 36,000 o bobl i'w sioeau, gan ychwanegu gwerth cymdeithasol a gwerth economaidd o £313,000.

Ar ôl cynnal Ras Cefnfor Volvo eiconig, aeth Cyngor Dinas Caerdydd ati i greu gwaddol rasys, gan weithio gyda busnesau hamdden a thwristiaeth a chreu arweinlyfrau ar gyfer busnesau ac ymwelwyr. Pinacl y gwaith hwn oedd digwyddiad rhwydweithiau ar gyfer busnesau i ddathlu Diwrnod Cefnforoedd y Byd 2019.

Mae porth Aberdaugleddau wedi gwella ei arferion caffael, gan gynnwys newid o laeth mewn poteli plastig i laethdy lleol sy'n defnyddio poteli gwydr y gellir eu hailddefnyddio a sicrhau nad yw mynychwyr gwyliau'n defnyddio ond platiau, cytleri ac ati y gellir eu hailgylchu neu eu compostio. Fel rhan o brosiect ehangach i addasu i newid yn yr hinsawdd bydd y Porth yn sefydlu hybiau Terracycle ar gyfer nifer o ffrydiau gwastraff ar gyfer gwastraff y Porth ei hun yn ogystal â gwastraff o gartrefi cyflogeion.

Mae 293 o fusnesau hefyd yn gweithio tuag at Achrediad Di-blastig gan Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth, gyda 194 eisoes wedi derbyn cydnabyddiaeth.

**Monitro ac Adrodd ar Gynnydd**

Yn 2019 roedd Prosiect Mawr Glanhau Traethau Prydain gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn cynnwys 30 sesiwn glanhau traethau ac arolygon sbwriel ledled Cymru, gyda dros 700 o wirfoddolwyr lleol yn cymryd rhan i waredu dros 15,000 o eitemau o sbwriel o draethau Cymru. Daethpwyd o hyd i gyfartaledd o 474.9 o eitem sbwriel bob 100m o draeth ar hyd traethau Cymru. Yr eitemau mwyaf cyffredin oedd darnau o blastig/polystyren, rhwydi pysgota plastig/polystyren, bonion sigaréts, lein pysgota plastig/polystyren, pecynnau (creision, losin, lolipops a brechdanau)

Mae Arolwg Beachwatch (y Gymdeithas Cadwraeth Forol) ac arolwg LEAMS yn rhoi setiau data cyson, hirdymor sy'n darparu toreth o wybodaeth, yn enwedig dros cyfnod o amser. Mae Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth hefyd wedi hyrwyddo archwiliadau gwyddoniaeth dinasyddion o'r deunyddiau a gasglwyd, gyda 35 wedi eu gwblhau yng Nghymru.

Fodd bynnag, yn ôl ymchwil Moroedd Glân Cymru mae angen archwilio i ddulliau eraill o gasglu data, a byddai sicrhau bod systemau casglu yn gyson yn gwella cydweithio’n sylweddol. Pwysleisir nad casglu data yw’r brif her, yn hytrach sut mae’r data hwn yn cael ei ddefnyddio i nodi a monitro problemau cyson.